SKACHB11

Siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a’r croen pen

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â'r sgìl o siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a'r croen pen gan ddefnyddio technegau a chynhyrchion tylino priodol ar gyfer gwahanol fathau o wallt a chyflyrau croen pen. Mae darparu cyngor ôl-ofal hefyd yn gynwysedig.

Er mwyn gweithredu'r safon hon bydd angen ichi gynnal a chadw iechyd, diogelwch a hylendid o safon uchel drwy gydol eich gwaith. Bydd rhaid ichi hefyd gynnal a chadw ymddangosiad personol proffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Prif ddeilliannau'r safon hon yw:

1. cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a'r croen pen
2. siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a'r croen pen

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a'r croen pen

1. cynnal a chadw eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelch drwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi eich cleient er mwyn bodloni gofynion y salon
3. diogelu dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth
4. gwisgo cyfarpar gwarchod personol, os bydd angen
5. gosod eich cleient mewn safle er mwyn bodloni anghenion y gwasanaeth heb iddyn nhw fod yn anghyfforddus
6. sicrhau bod eich osgo a'ch safle chi eich hun wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
7. cadw eich ardal waith yn lân a thaclus drwy gydol y gwasanaeth
8. defnyddio dulliau gweithio sy'n:
8.1 lleihau'r risg o ddifrod i offer
8.2 lleihau'r risg o groes-heintiad
8.3 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio
8.4 sicrhau'r defnydd o adnoddau glân
8.5 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi eich hun ac eraill
8.6 hybu arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy
9. sicrhau bod eich hylendid, eich diogelwch a'ch ymddangosiad personol yn bodloni gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion
11. gwared defnyddiau gwastraff
12. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser masnachol ymarferol

Siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a'r croen pen

13. gofyn cwestiynau i'ch chleient er mwyn canfod a oes ganddi/ganddo unrhyw wrtharwyddion i wasanaethau trin gwallt a chroen pen
14. defnyddio cynhyrchion, offer a chyfarpar sy'n addas i **gyflwr gwallt** a **chyflwr croen pen** eich cleient
15. addasu eich **technegau tylino siamp** er mwyn cyfarfod ag anghenion eich cleient
15.1 hyd a thrwch y gwallt
15.2 cyflwr y gwallt a **chyflwr y croen pen**

16. addasu eich **technegau tylino siamp** er mwyn sicrhau cyfforddusrwydd eich cleient
17. addasu tymheredd a llif y dr i gyd-fynd ag anghenion gwallt, croen pen a chyfforddusrwydd eich cleient
18. cribo drwy wallt eich cleient, os bydd angen hynny, cyn cam nesaf y gwasanaeth, heb achosi niwed i'r gwallt a'r croen pen
19. taenu **cynhyrchion cyflyru** er mwyn cyfarfod ag anghenion gwallt a chroen pen eich cleient, gan ddilyn cyfarwyddiadau eich salon a'r gwneuthurwyr
20. addasu eich **technegau tylino cyflyrydd** er mwyn cyfarfod ag anghenion **cyflwr gwallt** a **chyflwr croen pen** eich cleient gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
21. monitro ac amseru datblygiad y **cynnyrch cyflyru** a defnyddio gwres ar y tymheredd cywir, os oes angen
22. tynnu'r **cynnyrch cyflyru,** os oes ei angen, mewn ffordd sy'n osgoi aflonyddu ar gyfeiriad y bilen
23. gadael gwallt a chroen pen eich cleient:
23.1 yn lân ac yn rhydd o **gynhyrchion cyflyru,** os bydd eu hangen
23.2 yn rhydd o ormod o ddr
24. cribo trwy wallt eich cleient heb achosi niwed i'r gwallt a'r croen pen
25. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y gwasanaeth a ddarperir

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth siampwio a chyflyru gwallt

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y maent wedi eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd
2. gofynion eich salon yngln â pharatoi cleient
3. y mathau o ddillad gwarchod a ddylai fod ar gael i chi eich hun ac i'ch cleientiaid
4. sut y gall safle eich cleient a chi eich hun gael effaith ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
5. beth yw dermatitis cyffwrdd a sut i osgoi ei ddal wrth gynorthwyo gyda gwasanaethau trin gwallt
6. pam ei bod yn bwysig cadw eich ardal waith yn lân ac yn daclus
7. pam ei bod yn bwysig osgoi croes-heintiad a thraws-bla
8. dulliau gweithio'n ddiogel ac yn lanwaith ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintiad a thraws-bla
9. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio a ddefnyddir mewn salonau
10. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gweithio diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn
11. y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hybu **arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**
12. pwysigrwydd hylendid a hunan-gyflwyniad personol er mwyn cynnal a chadw **iechyd a diogelwch** yn eich gweithle
13. pwysigrwydd holi cleientiaid er mwyn cadarnhau unrhyw wrtharwyddion i wasanaethau trin gwallt a chroen
14. cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr ar gyfer gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion y mae'n rhaid i chi eu dilyn
15. y dulliau cywir o wared gwastraff
16. amser gwasanaeth disgwyliedig eich salon ar gyfer siampwio, cyflyru a thrin y gwallt

Siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a'r croen pen

17. sut i adnabod **cyflyrau gwallt a chroen pen** a'u hachosion
18. sut a pham y gall y gwrthrybuddion effeithio ar y gwasanaeth
19. sut y gall gwahanol **gyflyrau gwallt a chroen pen** effeithio ar y dewis o gynhyrchion siampwio, cyflyru a thrin gwallt

20. sut y gall siamp a dr gydweithio â'i gilydd er mwyn glanhau'r gwallt
21. pryd a sut y dylid defnyddio technegau tylino wrth gyflyru gwallt o wahanol hyd a thrwch
22. effeithiau tymheredd dr ar y croen pen a ffurfiant y gwallt
23. pwysigrwydd datod unrhyw glymau yn y gwallt o'r blaen i'r gwraidd
24. sut mae gwerth pH y cynhyrchion a ddefnyddir yn effeithio ar gyflwr cyfredol y gwallt
25. sut y gall 'gwaddodion' cynhyrchion effeithio ar y gwallt, y croen pen ac effeithiolrwydd gwasanaethau eraill
26. sut y gall siampau a chynhyrchion cyflyru effeithio ar y gwallt a'r croen pen
27. y mathau o gynhyrchion a chyfarpar siampwio a chyflyru sydd ar gael
28. pryd a sut i ddefnyddio gwahanol gynhyrchion siampwio, cyflyru a thrin gwallt
29. pryd y dylid ailadrodd y broses siampwio
30. beth all ddigwydd os bydd y cynhyrchion siampwio a chyflyru yn cael eu defnyddio
31. pryd a sut y dylid defnyddio technegau tylino cylchol, effleurage a rhwbio wrth siampwio gwallt o wahanol hyd a thrwch
32. diben a manteision tylino'r croen pen
33. sut i ddefnyddio a thrin a thrafod cyfarpar a ddefnyddir yn ystod prosesau cyflyru a thrin gwallt
34. pwysigrwydd tynnu cynhyrchion cyflyru a thrin gwallt, pan fydd eu hangen
35. pwysigrwydd tynnu unrhyw ddr dros ben o'r gwallt ar ddiwedd y gwasanaeth
36. sut mae gwres yn effeithio ar y gwallt yn ystod y driniaeth gyflyru
37. pwysigrwydd rhoi cyngor ac argymhellion ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir yn y salon

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

1. Cyflwr gwallt
1.1 wedi'i niweidio
1.2 gwaddodion cynnyrch
1.3 normal
1.4 seimlyd
1.5 sych

2. Cyflwr croen pen
2.1 cen ar y croen pen
2.2 seimlyd
2.3 sych
2.4 gwaddodion cynnyrch
2.5 normal

3. Technegau tylino siamp
3.1 effleurage
3.2 cylchol
3.3 rhwbiad

4. Cynhyrchion cyflyru
4.1 arwyneb
4.2 treiddiol
4.3 triniaeth croen pen

5. Technegau tylino cyflyrydd
5.1 effleurage
5.2 petrissage

6. Cyngor ac argymhellion
6.1 technegau cywir ar gyfer datod clymau
6.2 siampau a chynhyrchion cyflyru addas
6.3 cyfnod amser rhwng gwasanaethau
6.4 cynhyrchion a gwasanaethau presennol ac i'r dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

1. Iechyd a diogelwch

Eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch fel y maent yn cael eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd

1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
1.2 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (*RIDDOR*)
1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario
1.6 Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (*COSHH*)
1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd
1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

2. Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hybu arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy
2.1 lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, ailddefnyddio, gwaredu diogel)
2.2 lleihau'r defnydd o ynni (sychwyr gwallt ynni-effeithlon, golau rhad-ar-ynni, defnyddio paneli solar)
2.3 lleihau'r defnydd o ddr ac adnoddau eraill
2.4 atal llygredd
2.5 defnyddio eitemau tafladwy (tywelion hawdd eu sychu)
2.6 defnyddio dodrefn ecogyfeillgar wedi'u hailgylchu
2.7 defnyddio paent cemegau isel
2.8 defnyddio cynhyrchion gwallt organig a rhydd o alergedd
2.9 defnyddio lliwyddion gwallt amonia isel iawn
2.10 defnyddio deunydd pacio cynnyrch ecogyfeillgar
2.11 dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
2.12 annog teithiau lleihau carbon i'r gwaith

3. Cyflyrau gwallt a chroen pen

3.1 wedi'i niweidio

3.2 gwaddodion cynnyrch
3.3 normal
3.4 seimlyd
3.5 sych
3.6 cen ar y gwallt a'r croen pen

4. Cyngor ac argymhellion
4.1 gwasanaethau ychwanegol
4.2 cynhyrchion ychwanegol

Gwerthoedd

1. Mae'r **Gwerthoedd Allweddol** canlynol yn tanategu cyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr:

1.1 parodrwydd i ddysgu
cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol
1.2 bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant fel ei gilydd
1.3 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn bodloni gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad
1.4 agwedd hyblyg tuag at waith
1.5 gweithiwr tîm
1.6 cynnal a chadw gofal cwsmeriaid
1.7 agwedd gadarnhaol
1.8 moeseg bersonol a phroffesiynol
1.9 y gallu i hunan-reoli
1.10 sgiliau cyfathrebu geiriol a chyfathrebu di-eiriau ardderchog
1.11 cynnal a chadw dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel
1.12 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn defnyddio cyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion yn ddiogel

Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol yn tanategu'r dasg o gyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r salon a'r unigolyn fel ei gilydd
1.1 bodloni safonau ymddygiad y salon
1.2 cyfarch y cleient yn barchus ac mewn ffordd gyfeillgar
1.3 cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddi/iddo deimlo'n werthfawr ac yn barchus
1.4 adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient
1.5 trin y cleient mewn ffordd gwrtais a gwasanaethgar ar bob adeg
1.6 rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleient a'i chadw/gadw'n gysurlon
1.7 addasu'r ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i ymddygiad cleientiaid gwahanol
1.8 ymateb yn brydlon i gleient sy'n ceisio cymorth
1.9 dewis y ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu gyda'r cleient
1.10 cadarnhau gyda'r cleient eich bod wedi deall ei disgwyliadau /ddisgwyliadau yn llwyr
1.11 ymateb yn brydlon a chadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
1.12 rhoi amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi esboniad pellach pan fydd hynny'n briodol
1.13 dod o hyd i wybodaeth ar fyr dro fydd o gymorth i'r cleient
1.14 rhoi i'r cleient y wybodaeth sydd ei hangen arni/arno am y gwasanaethau neu'r cynhyrchion a gynigir gan y salon

1.15 adnabod gwybodaeth all fod yn gymhleth i'r cleient a gwirio a yw hi/e yn ei deall yn llwyr
1.16 esbonio'n glir wrth y cleientiaid unrhyw resymau pam na ellir cyfarfod â'u hanghenion neu eu disgwyliadau

Geirfa

1. Cynhyrchion cyflyru (enghreifftiau)

Gall y rhain gynnwys:
1.1 cyflyrwyr arwyneb, gan gynnwys rhai i'w gadael i mewn
1.2 cyflyrwyr treiddiol, gan gynnwys rhai i'w gadael i mewn
1.3 triniaethau croen pen, gan gynnwys rhai i'w gadael i mewn

2. Technegau tylino
2.1 **Effleurage** – tynnu llaw yn dyner dros y gwallt (mwytho)
2.2 **Rhwbiad** –rhwbio egnïol gan ddefnyddio blaen y bysess. Mae hwn yn symudiad cyfnerthol, yn hytrach nag esmwythol ac nid yw'n cael ei wneud bob tro. Dim ond am rai munudau y gwneir hyn, gan weithio o'r cefn i'r blaen.
2.3 **Petrissage** – tylino araf, cadarn
2.4 **Cylchol** – symudiad cylchol cadarn gan ddefnyddio blaen y bysedd dros arwyneb y croen pen.

SKACHB11

Siampwio, cyflyru a thrin y gwallt a'r croen pen

Datblygwyd gan	SkillsActive
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	February 2014
Indicative Review Date	April 2018
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAGH8
Galwedigaethau perthnasol	Galwedigaethau Gwasanaeth Personol; Mentrau Gwasanaeth; Mentrau mân-werthu a masnachol; Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig
Cyfres/Set	Trin gwallt; Trin gwallt a barbro
Geiriau Allweddol	siampwio; cyflyru; trin; gwallt; croen pen